

Ar Ddydd Mawrth, 18 Mai 2010 cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyncoch am 7.30pm yna Cyfarfod Busnes i ddilyn

7.00 pm: Ni ddaeth unrhyw aelodau o'r cyhoedd i'r Cyfarfod Agored a hysbysebwyd am 7.00pm ond roedd yr Heddwys Cymunedol PC 973 Hefin Jones yn bresennol ac fe'i gwahoddwyd i annerch y Cyfarfod. Bu PC Jones yn trafod cynigion i wella Cyfarfodydd PACT, gan gynnwys dosbarthu mwy o bosteri a chyhoeddiadau i'r wasg a'r radio. Gan droi at faterion lleol oedd yn achosi pryder i'r cyhoedd megis goryrru, parcio ac ati, sicrhaodd yr aelodau fod yr Heddlu'n ymwybodol o'r problemau a'u bod wrthi'n edrych ar ddulliau gwell o ddelio â nhw. Ar ôl ymateb i nifer o gwestiynau diolchwyd yn wresog iddo am fynychu'r cyfarfod gan y Cadeirydd a phawb oedd yn bresennol a gadawodd y Cyfarfod am 7.30pm.

7.30 pm: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

PRESENNOL: Y Cyng. R Owen (Cadeirydd), D Sheppard; Trefor Davies; Mrs G Price; Mrs E Davies; Mrs K Walker; D R Morgan; Tegwyn Lewis; D M Hughes; D Jones a'r cler

2770 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyng. M Evans

2771 Materion Personol: Dim

2772 CCB 2009: Dosbarthwyd Cofnodion CCB 2009 ymlaen llaw. Cadarnhawyd y rhain yn y Cyfarfod a gynhaliwyd ym Mehefin 2009.

2773 Adroddiad y Cadeirydd:

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cefnogaeth a'u help yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nododd fod nifer o faterion wedi codi yn ystod 2008/09 sydd heb eu datrys o hyd, gan gynnwys dyfodol Ysgol Trefeurig fel Canolfan Gymunedol. Ar hyn o bryd, prydles o flwyddyn yn unig sydd gan y Grŵp Datblygu. Llwyddwyd i newid y cyfeiriad post ar gyfer trigolion Penbontrhydybeddau, ond er gwaethaf y cymorth a gafwyd gan Elin Jones, mae'r derbyniad Band Eang yn wael mewn rhai mannau ac nid yw cyflwr y ffordd wedi gwella. Cafodd yr ardal ei heffeithio gan y tywydd garw a'r prinder biniau graean hefyd.

O ran Penrhyncoch, nododd y Cadeirydd fod peth gwaith cynnal a chadw tymor byr wedi'i wneud ar y ffordd allan o'r pentref. Cafodd y Gofeb ei difrodi ym mis Tachwedd ac roedd y gwaith o'i thrwsio'n mynd rhagddo.

Mabwysiadwyd y Cynllun Iaith Gymraeg gan y Cyngor yn unol â'r gyfraith ac mae dau ddatblygiad y cyfeiriwyd atynt y llynedd yn mynd yn eu blaenau: Y Cynllun Datblygu Lleol - mae'r Cyngor yn rhan o'r broses honno; a hefyd y cynllun gan SSE Renewables i godi fferm wynt. Ni chyflwynwyd cais am y cynllun eto, ond mae ar y gweill.

2774 Ethol Cadeirydd 2010/2011

Gwahoddwyd yr Is-gadeirydd, Trefor Davies a derbyniodd y gwahoddiad i fod yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod. Llofnododd y ffurflen Datganiad Derbyn Swydd, derbyniodd Gadwyn y Swydd a diolchodd yn wresog i'r Cynghorydd R Owen am ei waith ar ran y Cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

2775 Ethol Is-gadeirydd

Gwahoddwyd enwebiadau am Is-gadeirydd - cynigiwyd ac eiliwyd y Cyng. D Sheppard yn unfrydol, a chytunodd i dderbyn y swydd.

2776 Ethol Cynrychiolwyr Pwyllgorau:-

Neuadd y Penrhyn: Y Cyng. Mrs G Price

PATRASA: Y Cyng. Mrs G Price

Cae Chwarae Pen-bont: Y Cyng. T Davies

Hen Ysgol Trefeurig: Y Cyng. T Davies

Cartref Tregerddan: Y Cyng. DR Morgan a Mrs G Price

Un Llais Cymru: Y Cyng. K Walker ac R Owen

Rhoserchan: Y Cyng. D Jones

Adroddiadau i'r Wasg: Y Cyng. R Owen

Grŵp Cyswllt Fferm Wynt: Y Cyng. K Walker ac R Owen

Llywodraethwyr Ysgol Penrhyncoch : Y Cyng. D M Hughes

Cyfarfod Busnes: 18 Mai, 2010:

- 2777 Datgan Buddiant Personol/Rhagfarnol:** Datganodd y Cyng. K Walker fuddiant yng Nghofnod 2791/2792, talu treuliau, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y materion hynny.
- 2778 Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill, 2010 fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:-
Cofnod 2497: Comisiwn Coedwigaeth - Canghennau'n crogi dros y ffordd ger Cwrt Villa, Penrhyncoch: Derbyniwyd e-bost gan y Comisiwn Coedwigaeth yn cadarnhau y byddai'r gwaith o dorri'r canghennau'n cael ei gwblhau'r mis hwn. PENDERFYNWYD nodi hynny.
Parcio – mynedfa Maeseilo: Derbyniwyd cadarnhad gan Heddlu Dyfed-Powys y byddant yn delio â'r mater
Cymdeithas Mynyddoedd Cambria: Cadarnhad y bydd cynrychiolydd o'r Gymdeithas yn rhoi sgwrs yng Nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.
Fferm Wynt arfaethedig Nant y Moch: Darllenwyd cais Y Cyng. R Owen i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) i gynnwys gwybodaeth yn natganiad amgylcheddol SSE Renewables. PENDERFYNWYD ei dderbyn a'i gefnogi..
- 2779 Adroddiadau Cyfarfodydd a fynychwyd gan Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor:**
Cynllun Datblygu Lleol – Dyranriad Anheddau: Mynychwyd y Cyfarfod yng Nghanolfan Rheidol ar 13 Mai 2010 gan Y Cyng. K Walker a'r cler. Trafododd y cyfarfod yr anghenion tai a ragwelir yng Ngheredigion rhwng 2007-2022 (5,900 o unedau); dyrannu tir rhwng Canolfannau Gwasanaethau Trefol; Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ac Aneddiadau Cysylltiedig. Esboniwyd y broses o asesu safleoedd a gyflwynwyd gan ymgeiswyr i'w hystyried, a darparwyd map ar gyfer bob cyngor yn dangos yr holl safleoedd y gwnaed cais amdanynt yn eu hardal, ynghyd â map o'r dyranriad tir dros dro yn eu hardal.
- Yn dilyn yr adroddiad uchod, trafodwyd copïau o'r mapiau a'r dogfennau perthynol, ynghyd â holiadur i'w ddychwelyd i Geredigion. Mynegwyd siom bod y datblygu ym Mhenrhyncoch yn bennaf ar hyd ymyl ddwyreiniol y pentref, fydd yn arwain at fwy o drafnidiaeth ar hyd y ffordd gul trwy'r pentref, sydd heb lwybr troed o hyd mewn manau..
PENDERFYNWYD rhoi ystyriaeth bellach i'r holiadur cyn anfon ymateb.
Cyfarfod Safle 27.04.10 ynghylch Cais Cynllunio A090873 - cais i godi sied amaethyddol i'r gorllewin o Gwelfor: Yn eu hadroddiad ar y cyfarfod safle, mynegodd y Cynghorwyr oedd yn bresennol eu siom gyda'r hyn oedd yn ymddangos fel diffyg cwrteisi ar ran aelodau'r Pwyllgor Cynllunio tuag at drigolion lleol yn mynegi'u pryderon a'u barn ar ganlyniadau posib caniatáu datblygiad ar y safle corsiog dan sylw.
Roedd ymateb y Cyngor i ohebiaeth/dogfennau a dderbyniwyd fel a ganlyn:
- 2780 Un Llais Cymru:** Derbyniwyd cylchlythyr a dau gopi o gylchgrawn 'Y Llais'. Pasiwyd y rhain ymlaen i'r aelodau eu darllen.
- 2781 Ymholiad gan Geredigion ynghylch y fformat mwyaf ffafriol ar gyfer y cyfarfod blynyddol rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir â Chynghorau Tref a Chymuned:** PENDERFYNWYD ymateb i'r holiadur.
- 2782 Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion** - Adroddiad Blynyddol 2009. PENDERFYNWYD ei nodi.
- 2783 Ombwdsman Cymru:** Copi o'r Canllawiau ar y Cod Ymarfer ar gyfer aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru. PENDERFYNWYD ei ddarllen a'i nodi.
- 2784 Tir Amwynder - Dôl Helyg, Penrhyncoch:** Llythyr dilynol gan un o drigolion Dôl Helyg yn gofyn am ymateb i gais cynharach i dirlunio'r tir amwynder. PENDERFYNWYD anfon y llythyr yma ymlaen i Swyddog Gorfodaeth Ceredigion a rhoi gwybod i anfonwr y llythyr pa gamau a gymerwyd.
- 2785 Shelter Cymru:** Gwahoddiad i weithdy ar 25 Mai 2010. Cytunodd y Cyng. D Sheppard ei fynychu.

Materion Ariannol

- 2786 Archebiant 2010/11:** Hysbysiad gan Geredigion bod archebiant 2010/11 sef £13,000 wedi'i dalu i gyfrif banc y Cyngor
- 2787 Ad-daliad TAW:** Hysbysiad gan HMRC bod hawliad TAW o £297 wedi'i gredydu i gyfrif y Cyngor
- 2788 Banc HSBC:** Ar 13 Mai 2010 roedd balans Cyfrif Cymunedol y Cyngor yn **£14,192.29**
PENDERFYNWYD trosglwyddo £11,000 i'r Cyfrif M/Manager
- 2789 Mandad Banc HSBC :** Dosbarthwyd Mandad Banc HSBC newydd a chafodd ei lofnodi gan yr wyth aelod oedd yn bresennol. PENDERFYNWYD y bydd pob siec a gyflwynir gan CC Trefeurig yn cael ei lofnodi gan unrhyw ddau lofnodwr a'r cler; ac i gadw at y penderfyniadau a osodwyd gan y banc yn Adran 5 o'i fandad ac a lofnodwyd ar ran y Cyngor gan Y Cadeirydd, Y Cyng. Trefor Davies, a'r cler.

PENDERFYNWYD talu'r biliau canlynol:

- 2790 Linda Griffiths:** Cyfieithu Ebrill 2010 - £63.70 siec 987
- 2791 Y Cyng. K Walker:** Hawliad costau teithio i Gyfarfodydd 08/04/10; 15/04/10 ac 13/05/10 – 88 milltir @ 50.1c y/f + 20c lwfans teithiwr: Cyfanswm £44.28 siec 988
- 2792 F J Walker:** Gwaith ail-osod a chynnal a chadw Panelau Dehongli: £95 siec 989
- 2793 GDYT:** Hurio stafell ar gyfer Cyfarfod mis Ebrill £10 siec 990
- 2794 Allianz Insurance 2010/11:** Disgwylir y rhestr adnewyddu ddiwygiedig. PENDERFYNWYD awdurdodi'r cler i gael siec wedi'i harwyddo i dalu'r premiwm cyn y dyddiad adnewyddu, sef 01.06.2010
- 2795 Archwiliad Blynyddol 2009/2010**
Cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol gan y Cyngor.
Adran 1 – Datganiad Ariannol: Gwiriwyd y manylion yn erbyn yr holl ddogfennau perthnasol; fe'u cymeradwywyd gan y Cyngor a'u harwyddo gan Y Cadeirydd a'r Swyddog Ariannol â Chyfrifoldeb (Y Clerc)
Adran 2 – Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol: Darllenwyd datganiadau 1-9 a'u cytuno gan y Cyngor. Nid oedd eitem 10 yn berthnasol. Cafodd y Datganiad ei gymeradwyo, ei gwblhau a'i arwyddo gan y Cadeirydd a'r cler.
PENDERFYNWYD anton y Ffurflen Flynyddol a'r holl ddogfennau perthynol i'r Archwiliwr Mewnol.
- 2796 CYNLLUNIO. Nodwyd y penderfyniadau cynllunio canlynol:**
A100086 24 Glan Seilo, Penrhyncoch - gwelliannau ac estyniadau - rhoddwyd caniatâd
Derbyniodd y Cyngor y ceisiadau canlynol i wneud sylwadau arnynt:
- 2797 A100138** I'r gorll. o Llwyn, Cwmerfyn – sied amaethyddol a mynedfa newydd. Dim sylwadau.
- 2798 A100194** 21 Maes yr Efail, Penrhyncoch – estyniad: Dim sylwadau
- 2799 Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar ddydd Mawrth 22 Mehefin yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00pm**
- 2800 Cytunwyd i gynnwys yr eitemau canlynol ar yr agenda:**
Bin graean wedi dymchwel ar allt Cwmisaf, Penbontrhydybeddau
Gwrych wedi gordyfu – Banc Maesmeurig, Penrhwiwnewydd ac ar ochr ogleddol y ffordd rhwng Bronheulwen a Pengeulan, Penbontrhydybeddau

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.25 pm